# Darllen y Beibl yn Ddeallus

## Gyda'n Gilydd

### Canllaw i arweinwyr/hwylusyddion grŵp

**Rhedeg y Cwrs**

Cynlluniwyd y cwrs hwn er mwyn i chi fedru hwyluso grŵp o bobl i ddysgu ac i ymchwilio'r deunydd yn y llyfryn, hyd yn oed os nad ydych erioed wedi arwain cwrs o'r blaen. Fel arweinydd neu hwylusydd, eich gwaith chi yw cadw golwg ar amseriad y sesiwn a sicrhau cyfle i bob aelod o'r grŵp i gyfrannu i'r drafodaeth os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Y bwriad creiddiol y tu ôl i'r cwrs yma yw annog pobl i fynd i'r afael â'i Beibl. Gall hwn swnio'n bwynt amlwg i'w wneud, ond, da chi, anogwch pob aelod o'r grŵp i ddod â chopi o'r Beibl gyda nhw, fel bod pobl yn dod i arfer â'i agor a'i ddarllen. Cofiwch na fydd pawb wedi cael cymaint â hynny o brofiad o'r Beibl, felly gwyliwch rhag gwneud i bobl deimlo'n chwithig os na fyddant yn gwybod lle na sut i ddod o hyd i adnodau yn y Beibl.


Un her am gwrs fel hwn yw y bydd, (ac fe ddylai) ennyn ymateb emosiynol gref gan y rhai sydd yn y grŵp. Mae pobl yn siŵr o anghytuno â'i gilydd ynglŷn â'r hyn sy'n cyfrif fel dehongliad 'da' neu 'wael'. Mae hi'n bwysig i adael i wahanol safbwyntiau i gael eu gwyntyllu ac ar yr un pryd osgoi sathru ar ffydd y rhai sydd yno. Mae modd gwneud y ddeubeth dim ond i bawb fod yn sensitif yn ogystal â bod yn onest. Mae hi'n werth gwneud hyn yn glir ar ddechrau'r cwrs ac o bosib atgoffa pobl o hyn ar ddechrau pob sesiwn.

Mae hi'n bwysig nodi hefyd nad oes yn aml atebion 'cywir' neu 'anghywir' wrth geisio darllen y Beibl yn ddeallus. Petai dim ond un ateb cywir, byddai ysgolheigion wedi cytuno ar ddehongliad flynyddoedd yn ôl. Peidiwch teimlo fod yn rhaid i chi gytuno â'ch gilydd na chwaith gytuno gyda phopeth sy'n cael ei ddweud yn llyfryn y cwrs. Bwriad y cwrs yw eich annog i ddod i'ch casgliadau eich hunan beth yw'r ffordd orau i ddarllen y Beibl yn ddeallus.

Fel arweinydd/hwylusydd y grŵp, byddai'n werth i chi roi ychydig o amser o'r neilltu cyn y cyfarfod i baratoi. Byddai'n fuddiol i chi ymgyfarwyddo gyda bwriad pob sesiwn a darllen drwy ddeunydd y sesiwn i weld beth sy'n cael ei gynnwys yno. Ym mhrif lyfryn y cwrs, fe welwch fod yna rai tasgau ar gyfer y grŵp cyfan a rhai i bobl gyflawni ar eu pennau eu hunain. Yn nes ymlaen yn y ddogfen hon, mae gennym drosolwg o'r cwrs ar eich cyfer a hefyd amcan o'r amser y dylid ei roi ar gyfer pob adran o fewn y sesiwn. Mae yna le yn y llyfryn hefyd i bobl wneud nodiadau wrth fynd ymlaen.

**Strwythur ac amseriad pob sesiwn**

Cynlluniwyd pob sesiwn i barhau oddeutu awr. Trosodd fe gewch chi awgrym o amseriad pob adran o'r sesiwn. Os ydych yn rhedeg allan o bethau i'w dweud cyn diwedd yr amser a awgrymwyd, symudwch ymlaen. Yn yr un modd, os ydych chi'n mynd i hwyl wrth drafod rhyw bwynt arbennig a'ch bod am dreulio mwy o amser yn ei drafod, gwnewch hynny, ac addasu amseriad gweddill y sesiwn. Os oes mynd




*Darllen y Beibl yn Ddeallus Gyda'n Gilydd*
© 2017 y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor
Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG **cymdeithasybeibl.cymru**

da ar y trafod, gallech benderfynu treulio mwy nag un cyfarfod i drafod deunydd un sesiwn gan roi rhwydd hynt i'r drafodaeth. Yn yr un modd, pwrpas y cwestiynau yw ennyn trafodaeth felly os ydy'r trafod yn mynd yn hwylus, peidiwch â theimlo fod yn rhaid i chi drafod pob cwestiwn. Mae yna ddigonedd o ddeunydd ym mhob sesiwn i wneud yn siŵr fod gan grwpiau mwy tawedog ddigon i'w wneud. Os ydych chi'n grŵp siaradus, hwyrach y bydd angen i chi benderfynu beth i'w adael allan.

Mae pob sesiwn yn dilyn yr un patrwm o benawdau:

**Bwrw ati (15 munud)**

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda gweddi. Teimlwch yn rhydd i ddefnyddio beth sydd ar y papur neu i weddïo o'r frest/yn fyrfyfyr. Yn dilyn mae agoriad i'r pwnc ac fel arfer rhai cwestiynau i'w trafod.

**Ymchwiliwch (10 munud)**

Dyma lle trafodir prif faterion y sesiwn. I ddilyn, bydd rhyw ymarferiad i'w wneud neu gwestiynau i'w trafod.

**Sylwch (5 munud)**

Yma cyflwynir darn o ddysgeidiaeth i'w amsugno. Teimlwch yn rhydd, naill ai i'w ddarllen ac yna symud ymlaen neu i gymryd amser i gnoi cil arno a'i drafod.


**Astudiwch (20 munud)**

Dyma gyfle i gymryd egwyddorion a ddysgwyd a'i rhoi ar waith wrth ddarllen darn o'r Beibl. Mae angen Beibl wrth law ar gyfer y darn yma.

**Cysylltwch (10 munud)**

Mae pob sesiwn yn gorffen gyda chyfle i adolygu'r prif bwyntiau a meddwl sut y gallwn eu cymhwyso. Ceir pwyntiau hefyd i ysgogi gweddi.

**Noder mai awgrym bras yw'r amseriad yma i fedru cyflawni'r gwaith mewn awr. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai grwpiau am drafod ymhellach neu dreulio mwy o amser ar un darn felly byddwch yn hyblyg er mwyn gwneud i'r sesiynau weithio i chi fel grŵp a'r amser sydd ganddoch gyda'ch gilydd.**




*Darllen y Beibl yn Ddeallus Gyda'n Gilydd*
© 2017 y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor
Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG **cymdeithasybeibl.cymru**

# Darllen y Beibl yn Ddeallus Gyda'n Gilydd: Trosolwg

## Sesiwn 1

**Darllen y Beibl yn Ddeallus: pam fod angen gwneud hynny?**

Mae'r sesiwn hon yn edrych ar rai o'r rhesymau pam ei bod hi mor bwysig i ddarllen y Beibl yn ddeallus ac yn meddwl am y prif ffyrdd y byddwn yn mynd ati i feddwl yn ddeallus am bethau yn gyffredinol yn ein bywydau bob dydd.

> ***Noder fod y sesiwn hon yn cynnwys gweithgaredd sy'n defnyddio pedair amlen. Bydd angen i chi gael gafael ar y rhain cyn i'r sesiwn ddechrau. Gweler y manylion ar dudalen 14 y llyfryn.**

## Sesiwn 2

**Deall Byd yr Awdur yn Ddeallus**

Mae'r sesiwn hon yn edrych ar yr hanes sydd y tu ôl i destun y Beibl ac yn gofyn pa wahaniaeth mae'n gwneud i ddeall byd yr awdur a beth sy'n digwydd os ydy ysgolheigion yn anghytuno.

## Sesiwn 3

**Deall y Testun yn Ddeallus**

Mae'r sesiwn hon yn ymchwilio i'r testun ei hun ac yn gofyn sut mae deall arddull yr ysgrifennu a chyd-destun y darn yn ein helpu i ddeall y darn.

## Sesiwn 4

**Deall y Cyfieithiadau yn Ddeallus**

Mae'r sesiwn hon yn trafod pwnc cyfieithu a'r egwyddorion sydd y tu ôl i'r cyfieithiadau a ddefnyddiwn i ddarllen y Beibl, ac yn gofyn sut y mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o'r hyn rydym yn ei ddarllen.

## Sesiwn 5


**Deall y Darllenydd yn Ddeallus**

Mae'r sesiwn hon yn ein helpu ni i feddwl amdanom ein hunain wrth i ni ddod at y testun a gweld trwy ba fath o sbectol y byddwn yn darllen y Beibl.

## Sesiwn 6

**Deall ein Hunain yn Ddeallus: Sut Gall y Beibl ein Helpu?**

Daw'r sesiwn hon a ni yn ôl mewn cylch wrth ofyn sut y mae darllen y Beibl yn ddeallus yn medru ein helpu ni i ddeall ein hunain yn well.




*Darllen y Beibl yn Ddeallus Gyda'n Gilydd*
© 2017 y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor
Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG **cymdeithasybeibl.cymru**